

## ❖ EFENGYL MEWN BUGEILGERDD

Sgwn i a ydyn ni'n rhy dueddol o edrych ar awduron yr efengylau fel haneswyr pur, fel rhai a groniclodd ddiwyddiadau yn wrthrychol, fanwl-gywir? Tybed a ddylem gydnabod eu bod hefyd yn wŷr dan fesur o ysbrydoliaeth, a'u bod mewn mannau wedi gorfod gwau barddoniaeth a delwedd, ac arwyddlun a phroffwydoliaeth i mewn i'r hanes pan ydynt yn delio ag elfennau cyfrin, arallfydol sy'n rhan o'r Efengyl? Ai bugeilgerdd a gawn ni yn hanes Luc o enedigaeth Iesu, sy'n dweud llawer mwy nag a welwn ni ar yr wyneb? Mae ei chyfaredd a'i chysegredigrwydd mae'n wir yn dipyn o waharddiad i unrhyw archwiliad arni, ond a ydym ar ein colled o beidio ceisio edrych o dan yr wyneb! Gyda chwilfrydedd parchedig a gostyngedig fe chwiliwn ni a oes yna arwyddion i'n tywys i mewn i feddwl Luc, ac efallai i'w ysbryd.

Digon naturiol a diniwed fyddai gofyn, er enghraifft, paham mai bugeiliaid gafodd y flaenoriaeth ar glywed am y geni. Paham nad rhywrai o'r gwir dduwiolion hynny oedd yn disgwyl yn weddigar a hiraethus a thaer am ddyfodiad y Meseia? Paham nad i neb yn y ddinas ei hunan? Roedd yna bysgotwyr hefyd mae'n rhaid allan wrth eu galwedigaeth 'liw nos'. A oes awgrym yn y ffaith mai pobl yn cael eu diystyru gan grefyddwyr hunangyfiawn eu dydd oeddynt, am iddynt ddewis galwedigaeth a'u cadwai'n ddi-dor wrth eu gwaith, 'yn aros yn y maes' (*abiding in the fields*) a thrwy hynny yn anffyddlon i wasanaethau y deml. 'Pobl yr ymylon' oedd y rhain, yr union fath ag y rhoddodd Iesu flaenoriaeth iddynt yn ei ddydd.

A paham cyhoeddi newyddion mor fendigedig a chyffrous â hyn yn y nos? Yn enwedig i wŷr a thasg mor bwysig ar eu dwylo. Nid oedd rheidrwydd na gofyn am hynny. Gwyddai Luc cystal â neb mai i nos bywyd y daeth Iesu. 'Y bobl a rodiasant mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr.'

Onid oedd ymddangosiad a chyfryngwriaeth angel yn beth i'w ddisgwyl i feddwl Iddewig oedd wedi ei boblogi ag angylion! Patrwm ysgrythurol pendant sydd yma. Trwy'r ysgrythurau oll angel sydd yn cyhoeddi newyddion pwysig neu dyngedfennol i unigolion ac i'r cyhoedd. Byddai cyhoeddi genedigaeth 'Meseia' yn hen ddigon i'r bugeiliaid gan mai am hynny roedd y disgwyliad mawr. Ond dyma'i gyhoeddi Ef dan dri theitl, Gwardwr, Crist (Meseia) ac Arglwydd. Teitlau oedd y ddau arall a gafodd oblegid apêl eang ac arwyddocâd dwfn Ei fywyd a'i waith.

Gan ei fod yn arfer cyffredinol y dyddiau hynny i rwymo baban mewn cadachau o'i wddf dros ei draed, mae'n naturiol gofyn hefyd paham fod yr angel yn cyfeirio at hynny fel pe byddai hynny yn 'arwydd' i'r bugeiliaid! Byddai ei gael mewn preseb yn arwydd wrth gwrs. A oes yma ddirgel awgrym mai Un dan gyfyngiadau ar hyd Ei fywyd a fyddai'r baban ar gyfrif Ei dynged fel Meseia?

Ar wahân i'r prif-angel, mae'r awel megis yn llwythog â si adenydd, mae yno 'dyrfa o'r llu nefol'. Nid tyrfa o angylion, sylwn. Yn ysgrythurol y sêr oedd y 'llu nefol', a thybïai yr Iddewon mai bodau ysbrydol oedd y rhain. Noson 'tyrfa o'r llu nefol' fyddai noson serog iawn iddynt hwy. A meddwl am y meddylfryd yma, a allem ddisgwyl disgrifiad mwy swynol o farddonol o'r sêr yn pylu gyda'r wawr na hyn – 'Wedi i'r angylion fynd ymaith oddi wrthynt i'r nef.'

Ond mae'r llu yma hefyd yn canu'n orfoleddus. Ac oni ddywed y Salmydd am y sêr, 'Fe â eu sain allan drwy'r holl ddaear a'u lleferydd hyd eithafoedd byd.' Job sy'n sôn am sêr y bore yn cydganu yn orfoleddus ar fore'r creu. Onid oedd rhagorach testun cân ganddynt y bore hwnnw! Bore geni yr Hwn a ddaeth i fyd i ail-greu y ddynolryw! 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd' – sydd debyg i Grist, yn greaduriaid newydd yng Nghrist, wrth fodd Duw.

Ac onid yw'r ofni, a'r rhyfeddu, a'r brysio, a'r llawenhau, a'r cyhoeddi, a'r gorfoleddu, a'r tystio a'r tynnu at Iesu sy'n nodweddu'r efengylau yn atseinio trwy'r fugeilgerdd yma o'i dechrau i'w diwedd?

Fe daniwyd doniau Luc i drawsnewid nos genedigaeth ddi-urddas, ddi-nod, ddi-ramant, yn noson genedigaeth anrhydeddus, orfoleddus, fythgofiadwy, fydhysbys. Yn noson geni Baban tyngedfennol – yn fore gobaith byd, ac yn Ddydd Nadolig.

**Haydn Davies**